# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ionawr 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 - 13.55)

**6.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Darpariaeth) 2024**

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-24 - Papur 27 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 26 Ionawr 2024

**6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalen 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-24 - Papur 28 - Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 26 Ionawr 2024

## 10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

(14.10 - 14.25) (Tudalennau 3 - 23)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-24 – Papur 22 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Offeryn statudol mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) 2024** |
| **DYDDIAD** | **26 Ionawr 2024** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.** |

Gosodwyd Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) 2024 ("y Rheoliadau") gerbron Senedd y DU ar 24 Ionawr 2024.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 19(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("y Ddeddf") (**1**).
Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod cenedlaethol perthnasol at ddibenion adran 19(1) o'r Ddeddf (**2**).

Pwrpas y Rheoliadau yw diweddaru cyfeiriadau at gyfraith yr UE a ddargedwir mewn is-ddeddfwriaeth o "gyfraith yr UE a ddargedwir " i "gyfraith a gymathwyd" (a thermau tebyg) a gwneud darpariaethau canlyniadol eraill sy'n deillio o Ddeddf 2023. Yn y pen draw, nod y Rheoliadau yw sicrhau eglurder a chydlyniad yn y llyfr statud domestig.

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys cymysgedd o ddarpariaethau datganoledig a darpariaethau wedi'u cadw. Fodd bynnag, nid ydynt yn dod o dan Reol Sefydlog 30A gan nad ydynt mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Rwyf wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon cytuno i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2023 c. 28.
(**2**) Gweler adran 21(2) o Ddeddf 2023 ar gyfer y diffiniad o "relevant local planning authority".

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

26 Ionawr 2024

Anwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo yn cael ei gynnal ddydd Llun, 5 Chwefror rhwng 10am a 11.15 am. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Queen Elizabeth House yng Nghaeredin a bydd yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Sharpe o Epsom OBE. Byddaf yn ymuno â'r cyfarfod o bell.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar Fil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gwasgaru ceiswyr lloches, a'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y cap ar lwybrau mudo diogel a chyfreithiol. Bydd trafodaeth hefyd ar Gynllun Wcráin, y gwrthdaro rhwng Israel a Hamas a'r diwygiadau diweddar o ran mudo net.

Bydd nodyn yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod, a byddaf yn rhoi gwybod i chi am hyn maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon